



# MENTRAU IAITH

## Llawlyfr

# Marchnata a Chyfathrebu



### Cynnwys

- Targeddu Cynulleidfa
- Canllaw Facebook
- Canllaw Twitter
- Canllaw Instagram a Snapchat
- Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol yn Effeithiol
- Canllaw Datganiad i'r Wasg
- Canllaw Poster/Pamffled
- Canllaw Gwefan
- Canllaw e-gylchlythyr
- Canllaw Youtube

## Targeddu Cynulleidfaoedd y Mentrau Iaith yn lleol

Cyfrwng	Teuluoedd (plant bach)	Teuluoedd (plant hŷn)	Pobl Ifanc (11 - 25)	Cymunedau (Saesneg)	Cymunedau (Cymraeg)	Y cyfryngau	Pwysigion
Facebook	<b>X</b>	<b>X</b>	<b>X</b>	<b>X</b>	<b>X</b>		
Twitter			<b>X</b>			<b>X</b>	<b>X</b>
Snapchat / Instagram			<b>X</b>				
Datganiadau i'r wasg						<b>X</b>	<b>X</b>
Papurau Bro	<b>X</b>	<b>X</b>			<b>X</b>		
Papur Saesneg Wythnosol	<b>X</b>	<b>X</b>		<b>X</b>			
Posterï a pamffledi	<b>X</b>	<b>X</b>	<b>X</b>	<b>X</b>	<b>X</b>		
Gwefan	<b>X</b>	<b>X</b>	<b>X</b>	<b>X</b>	<b>X</b>	<b>X</b>	<b>X</b>
e-gylchlythyr	<b>X</b>	<b>X</b>		<b>X</b>	<b>X</b>		<b>X</b>

## Canllaw Facebook

Gwefan cymdeithasol sy'n cynnwys profiliau personol, tudalennau cwmni, corfforaeth neu sefydliad, marchnadoedd, a grwpiau cyhoeddus a phreifat.

### Pam?

- Hyrwyddo digwyddiadau
- Ymgysylltu gyda'r cyhoedd
- Rhannu newyddion y fenter
- Rhannu newyddion perthnasol arall
- Hysbysebu

### Pryd?

Dylid postio neges yn aml er mwyn aros yn gyfredol a gweladwy.

O leiaf dwywaith yr wythnos.

Amseroedd strategol (pryd mae'ch cynulleidfa yn defnyddio Facebook? E.e. ar ôl gwaith neu ar ôl swper)

### Pwy mae'n targedu?

- Teuluoedd (plant bach)
- Teuluoedd (plant hŷn)
- Pobl Ifanc (11-25)
- Cymunedau (Saesneg)
- Cymunedau (Cymraeg)

### Pa fath o dudalen?

<p><b>Tudalen (Cwmni, Corfforaeth neu Sefydliad)</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Er mwyn creu digwyddiadau</li><li>• Yn ffenest siop gyhoeddus</li><li>• I ymgysylltu gyda'r cyhoedd</li><li>• Gallu gweld 'mewnweliadau'</li><li>• Gallu hysbysebu</li></ul>	<p><b>Proffil Person (proffil ar gyfer aelod staff sy'n llwyr broffesiynol ac ar wahân i'w proffil personol)</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Er mwyn i'r cyhoedd ymgysylltu'n uniongyrchol gydag aelod o staff ar-lein</li></ul>
---	--

Gwiriwch y rhestr isod i sicrhau eich bod yn gwneud y mwyaf o'r cyfrwng:

## Gosod tudalen

- Creu Tudalen Cwmni, Corfforaeth neu Sefydliad
- Dewis categori Sefydliad Cymunedol (neu un arall sy'n fwy perthnasol)
- Gosod enw llawn y fenter fel enw'r cwmni
- Creu '@username' sy'n fersiwn byr o enw'r fenter os yw'n rhy hir e.e. @Mlenw'rfenter
- Llwytho logo'r fenter fel llun proffil
- Llwytho llun o ddigwyddiad fel llun clawr
- Gosod dolen i wefan y fenter fel 'botwm'
- Creu disgrifiad byr dwyieithog e.e. Menter sy'n gweithio yn ardal \_\_\_\_ i gryfhau'r iaith Gymraeg yn ein cymuned
- Creu disgrifiad hir yn ymhelaethu e.e. Pwyntiau bwled gydag enghreifftiau o'ch gwaith
- Ychwanegu cyfeiriad a ffyrdd o gysylltu
- Gwirio holl elfennau'r Gosodiadau
- Llwytho unrhyw luniau, fideos defnyddiol
- Gwahodd pobl i hoffi'r dudalen

## Gwneud y mwyaf o'r dudalen

- Defnyddio botwm 'mewnweliadau' i weld pwy yw'r gynulleidfa, pa negeseuon sy'n gweithio orau, pa amseroedd mae'r gynulleidfa ar Facebook
- Tagio cyfryngau perthnasol mewn negeseuon drwy ddefnyddio @\_\_\_\_ o fewn y neges
- Rhoi llun a dolen ym mhob neges (os nad oes llun/poster perthnasol, defnyddiwch eich logo)
- Rhannwch newyddion/negeseuon eich partneriaid i adeiladu perthynas
- Rhannwch wybodaeth gyffredinol am y Gymraeg (erthyglau o newyddion da, datblygiadau pwysig ayyb)
- Gallwch amserlennu eich negeseuon i fynd ar amseroedd penodol yn y dyfodol. Ffordd effeithlon o ddefnyddio'ch amser ar-lein.
- Crëwch dudalennau digwyddiadau ar y dudalen. Mae hyn yn arddangos gymaint o bethau sydd gan y mentrau'n mynd ymlaen, ac yn llai dryslyd na llwyth o bosteri ar y prif dudalen.
- Gallwch greu 'fideo byw' o ddigwyddiadau. Ffordd dda o ymgysylltu gyda chynulleidfa oedd methu bod yno a'i ddefnyddio i hyrwyddo'r rhai nesaf.
- Edrychwch ar yr opsiynau 'boots post' neu hysbysebu - rhad ond effeithiol!

## Canllaw Twitter

Gwefan cymdeithasol sy'n cynnwys un math o gyfrif gyda phwyslais ar 'tweets' byr a bachog gan arwain at wefannau allanol.

### Pam?

- Hyrwyddo digwyddiadau
- Ymgysylltu gyda'r cyfryngau a phwysigion
- Rhannu newyddion y fenter
- Rhannu newyddion perthnasol arall

### Pryd?

Dylid postio neges yn aml er mwyn aros yn gyfredol a gweladwy.

Amseroedd strategol (pryd mae'ch cynulleidfa yn defnyddio Twitter E.e. ar ôl gwaith neu ar ôl swper). Defnyddio #hashtags priodol e.e. #yagym (Yr Awr Gymraeg) rhwng 8yh a 9yh ar nos Fercher neu #aydysgwyr (Awr y Dysgwyr) rhwng 9yh a 10yh ar nos Lun.

### Pwy mae'n targedu?

- Pobl Ifanc (11-25)
- Y Cyfryngau
- Pwysigion

Gwiriwch y rhestr isod i sicrhau eich bod yn gwneud y mwyaf o'r cyfrwng:

- Gosod enw llawn y fenter fel enw'r cyfrif
- Creu '@username' sy'n fersiwn byr o enw'r fenter os yw'n rhy hir e.e. @Mlenw'rfenter
- Llwytho logo'r fenter fel llun proffil
- Llwytho llun o ddigwyddiad fel llun clawr
- Gosod dolen i wefan y fenter
- Creu disgrifiad byr dwyieithog e.e. Menter sy'n gweithio yn ardal \_\_\_\_ i gryfhau'r iaith Gymraeg yn ein cymuned
- Dilynwch gyfrifon cwmnïau lleol, cyfryngau lleol a chenedlaethol, pwysigion, pobl ddylanwadol yn eich cymuned, holl bartneriaid 'Cymraeg'
- Defnyddio gwefan Tweetdeck neu Hootsuite (mae eraill ar gael hefyd) i allu amserlennu negeseuon, byrhau dolenni gwefan, gallu gweld ystadegau defnyddiol

## Canllaw Instagram a Snapchat

Apiau cymdeithasol sy'n cynnwys un math o gyfrif gyda phwyslais ar rannu lluniau a fideo byr.

Instagram – mae'r lluniau rydych yn llwytho yn ymddangos ar eich tudalen proffil ac yn aros yno.

Snapchat – nid oes tudalen broffil ac mae'r lluniau neu fideos yn diflannu ar ôl i rywun eu gwyllo.

### Pam?

- Hyrwyddo digwyddiadau
- Rhannu lluniau diddorol o'r fenter

### Pryd?

Dylid postio lluniau o ddigwyddiadau neu o bethau diddorol am y fenter.

Mae 'My Story' yn gyfle i rannu fideo byr neu luniau o beth sydd wedi digwydd yn y 24 awr diwethaf.

### Pwy mae'n targedu?

- Pobl Ifanc (11-25)

Gwiriwch y rhestr isod i sicrhau eich bod yn gwneud y mwyaf o'r cyfrwng:

- Gosod enw llawn y fenter fel enw'r cyfrif
- Creu '@username' sy'n fersiwn byr o enw'r fenter os yw'n rhy hir e.e. @Mlenw'rfenter
- [Instagram] Llwytho logo'r fenter fel llun proffil
- [Instagram] Gosod dolen i wefan y fenter yn y 'bio'
- [Instagram] Creu disgrifiad byr dwyieithog e.e. Menter sy'n gweithio yn ardal \_\_\_\_ i gryfhau'r iaith Gymraeg yn ein cymuned
- Dilynwch gyfrifon cwmnïau lleol, cyfryngau lleol a chenedlaethol, pwysigion, pobl ddylanwadol yn eich cymuned, holl bartneriaid 'Cymraeg'
- [Instagram] Rhowch #hashtags cyfredol fel nodyn eich llun e.e. #diwrnodhwyl #haf #cymraeg
- Defnyddiwch sticeri hwyliog i fywiogi'ch lluniau neu fideos.

### Defnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol yn Effeithiol

Mae sawl gwefan ar gael er mwyn eich helpu i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol a'n effeithlon.

Mae gan Facebook a Twitter ardaloedd ar eu gwefannau ble mae modd edrych ar ystadegau'r cyfrifon gyda graffiau defnyddiol yn rhoi mwy o wybodaeth i chi am ddemograffeg eich cynulleidfa, yr amseroedd gorau i bostio negeseuon, y mathau o ddeunydd sy'n gweithio orau ayyb. Gallwch hefyd reoli ac amserlennu sawl cyfrif o'r sianeli yma. Mae'r rhain am ddim.

Twitter - [tweetdeck.twitter.com](https://tweetdeck.twitter.com) a [analytics.twitter.com](https://analytics.twitter.com)

Facebook [www.facebook.com/eichtudalen/insights](https://www.facebook.com/eichtudalen/insights)

Mae mathau eraill o wefanau fel [hootsuite.com](https://hootsuite.com) a [buffer.com](https://buffer.com) sy'n caniatáu i chi reoli sawl math o gyfryngau cymdeithasol o un gwefan (Twitter, Facebook, Instagram a Youtube). Gall hyn fod yn ddefnyddiol iawn er mwyn cael trosolwg o'r holl gyfryngau wrth reoli ymgyrch neu hyrwyddo digwyddiad. Mae fersiwn sylfaenol o'r gwefannau yma am ddim gyda pheynnau sydd â mwy o opsiynnau yn codi pris pob mis. Gallwch greu timau ar Hootsuite a Buffer sy'n eich galluogi i wahodd pobl i gyfrannu at gyfrifon. Gall hyn fod yn ddefnyddiol os yn gweithio ar ddiwyddiad gyda phartneriaid allanol.

## Canllaw Datganiad i'r Wasg

E-bost neu ddogfen sy'n dweud eich stori yn glir, syml a chywir

Dyma ffordd i ledaenu eich stori newyddion i'r wasg a'r cyfryngau gan sicrhau eu bod yn derbyn y ffeithiau yn uniongyrchol gennych chi.

### Y Golofn Gymraeg?

Gallwch hefyd holi'r papurau bro neu'r papur Saesneg yn eich ardal am golofn neu dudalen ar gyfer hyrwyddo eich gwaith chi a rhannu newyddion am y Gymraeg yn yr ardal.

## Pam?

I hyrwyddo:

- Digwyddiad e.e. Diwrnod hwyl i'r teulu yn lleol
- Ymgyrch e.e. Prosiect lego gyda phobl ifanc
- Newyddion e.e. Penodi Prif Swyddog newydd
- Stori brofiad e.e. rhywun wedi goresgyn problemau i wneud rhywbeth

## Pryd?

Dylid anfon rhain mewn da bryd i gyrraedd amser cau'r gweisg neu gyfarfodydd trefnu cynnwys rhaglenni...

e.e. mae dyddiad cau papurau wythnosol ganol/diwedd yr wythnos olynol

e.e. mae cyfarfodydd Post Prynawn peth cyntaf y bore

## Pwy mae'n targedu?

Gwasg	Cyfryngau
1. Cenedlaethol <ul style="list-style-type: none"><li>a. Western Mail, Nation.Cymru, Golwg, Y Cymro, Lleol.cymru ayyb</li></ul>	3. Radio <ul style="list-style-type: none"><li>a. Radio Cenedlaethol (Radio Cymru/Radio Wales)</li><li>b. Radio Ardal (e.e. Mon FM, Wave, BGFM ayyb)</li></ul>
2. Lleol <ul style="list-style-type: none"><li>a. Papurau Bro</li><li>b. Papurau wythnosol a dyddiol (e.e. Llanelli Star, Chronicle ayyb)</li></ul>	4. Teledu <ul style="list-style-type: none"><li>a. Newyddion (Newyddion 9, ITV Cymru)</li><li>b. Cylchgrawn (Heno, Prynawn Da, One Show ayyb)</li></ul>



Dilynwch y templed isod i greu Datganiad i'r Wasg am eich newyddion.

**DATGANIAD I'R WASG**  
**25/04/2017**

**LOGO**  
**TEITL BACHOG, OND GWYBODUS, SY'N DAL SYLW**

Paragraff cyntaf i ateb y 5 cwestiwn – pwy, beth, pryd, ble, pam – 1 neu 2 frawddeg.

Ail baragraff i ymhelaethu ar y cyntaf – unrhyw wybodaeth ychwanegol?  
Cyflwyno dyfynydd;

*“Dyfyniad”*

Cyflwyno ail ddyfynydd (mae'n ddefnyddiol rhoi opsiwn o ddau lais);

*“Dyfyniad”*

Unrhyw sylwadau cloi e.e. ble mae cael mwy o wybodaeth (dolen i wefan), tocynnau ayyb

## **DIWEDD**

Am fwy o wybodaeth, lluniau neu i drefnu cyfweiliad cysylltwch â Enw, ebost, rhif ffôn.

Llun – beth yw'r llun e.e. poster yr ymgyrch, llun o'r digwyddiad, llun o berson  
Oes angen credydu'r ffotograffydd?

## **Nodiadau Golygyddol**

Yma gallwch roi unrhyw wybodaeth ychwanegol fydd o ddefnydd i olygydd e.e. cefndir

## Canllaw Posteri a Phamffledi

Ffordd draddodiadol ond effeithiol i hyrwyddo ar y stryd, mewn siopau neu ganolfannau neu mewn digwyddiadau.


### Pam?

- Hyrwyddo digwyddiadau
- Rhannu gwybodaeth am y fenter

### Pwy mae'n targedu?

- Teuluoedd (plant bach)
- Teuluoedd (plant hŷn)
- Pobl Ifanc (11-25)
- Cymunedau (Saesneg)
- Cymunedau (Cymraeg)

Dilynwch y templed isod i greu poster neu bamffled am eich digwyddiad.



## Canllaw Gwefan

Prif ffenest siop ddigidol a phroffesiynol ar gyfer y fenter.

## Pam?

I hyrwyddo:

- Gwaith a phrif neges y fenter
- Gwybodaeth gyswllt y fenter
- Delwedd broffesiynol y fenter

## Pwy mae'n targedu?

- Teuluoedd (plant bach)
- Teuluoedd (plant hŷn)
- Pobl Ifanc (11-25)
- Cymunedau (Saesneg)
- Cymunedau (Cymraeg)
- Y Cyfryngau
- Pwysigion

Gwiriwch y rhestr isod i sicrhau eich bod yn gwneud y mwyaf o'r cyfrwng:

- Logo ac enw'r fenter yn glir ar y wefan
- Disgrifiad o nod ac amcanion y fenter yn glir ar y wefan
- Gwybodaeth gyswllt a chyfeiriad yn glir ar y wefan
- O leiaf 1 darn o newyddion newydd pob mis
- Gwybodaeth am brif brosiectau'r fenter ar y wefan
- Lluniau deniadol a pherthnasol ar y wefan
- Delwedd ac iaith broffesiynol yn cael ei ddefnyddio
- Logos noddwyr a phartneriaid gyda dolenni i'w gwefannau ar y wefan
- Sicrhewch fod yr holl wybodaeth ar y wefan yn berthnasol a chyfredol gan taw dyma'r ffenest siop gyntaf i gynulleidfa newydd

## Canllaw e-gylchlythyr

Cylchlythyr ar ffurf e-bost gyda phigion o'ch newyddion, datblygiadau a digwyddiadau ac yn ffordd dda i gynnal perthynas gyda chynulleidfa sydd eisoes wedi dangos diddordeb.

### Pam?

- Hyrwyddo digwyddiadau
- Cadw perthynas gyda'r cyhoedd
- Rhannu newyddion y fenter

### Pryd?

Yn dibynnu ar eich newyddion - chwarterol, misol, wythnosol

### Pwy mae'n targedu?

- Teuluoedd (plant bach)
- Teuluoedd (plant hŷn)
- Cymunedau (Saesneg)
- Cymunedau (Cymraeg)
- Pwysigion

Gwiriwch y rhestr isod i sicrhau eich bod yn gwneud y mwyaf o'r cyfrwng:

- Defnyddiwch wefan fel Mailchimp er mwyn rheoli rhestr ddosbarthu a dylunio'r e-gylchlythyr
- Logo ac enw'r fenter yn glir ar dop yr e-gylchlythyr
- Sicrhau bod enw'r fenter yn y pwnc
- Gwybodaeth gyswllt yn glir waelod yr e-gylchlythyr
- Peidiwch rhoi gormod o wybodaeth, dim ond pigion gan arwain i'ch gwefan, tudalen Facebook neu rywle arall am fwy o wybodaeth
- Llun deniadol neu bosteri i ddal llygad
- Delwedd ac iaith broffesiynol yn cael ei ddefnyddio
- Sicrhewch fod y rhestr ddosbarthu yn cael ei ddiweddarau'n aml gan sicrhau bod y derbynwyr eisoes wedi cytuno i dderbyn yr e-gylchlythyr

## Canllaw Youtube

Gwefan o sianeli fideo ble mae modd llwytho a gwyllo fideos o bob math.

### Pam?

- Cyhoeddi fideos sy'n marchnata'r fenter
- Cyhoeddi fideos o glybiau neu ymgyrchoedd/prosiectau penodol

### Pryd?

Pan fo'r angen.

### Pwy mae'n targedu?

- Pobl Ifanc
- Teuluoedd (plant hŷn)

Gwiriwch y rhestr isod i sicrhau eich bod yn gwneud y mwyaf o'r cyfrwng:

- Crewch Sianel drwy glicio 'sign in'
- Defnyddiwch ebost Google/gmail er mwyn cael yr opsiynau gorau wrth greu sianel
- Ewch i'r gosodiadau Youtube er mwyn datblygu'r sianel a chlicio 'Create a Channel'
- Dewis opsiwn Sianel Fusnes gan ei fod yn rhoi mwy o ryddid i chi
- Dewisiwch opsiwn cynnwys perthnasol: adloniant, chwaraeon, celfyddydau ayyb
- Llwythwch lun proffil (e.e. logo'r fenter) a llun clawr sy'n berthnasol i gynnwys y sianel (tebyg i un Facebook)
- Cofiwch roi dolenni eich cyfryngau cymdeithasol eraill (Twitter, Facebook, Instagram)
- Tra'n llwytho'r fideos llenwch y blychau gwybodaeth gyda theitl disgrifiadol a disgrifiad mwy manwl. Cofiwch gydnabod ffotograffwyr, actorion, cerddorion neu unrhywun perthnasol
- Tagiwch!! Os yw'r fideo ar bwnc penodol yna defnyddiwch y tag e.e. Minecraft neu Hair&Beauty ayyb. (cofiwch Mentrau Iaith a Cymraeg!)
- Defnyddiwch y cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'ch fideo drwy ddefnyddio botwm 'share' ar Youtube yn hytrach na chopio'r ddolen o dop y wefan. Bydd hyn yn gwnued i'r fideo ymddangos yn rhan o'r neges yn hytrach na fel dolen yn unig.
- Mae modd gwneud l'ch fideos ymddangos ar eich gwefan drwy bwysu botwm 'share' yna 'embed'. Copiwch y côd yma i gefndir eich wefan. Ar rai gwefannau fel Wordpress nid oes angen côd, dim ond URL y fideo, sef y cyfeiriad: <https://youtu.be/hKwrmpIJqrA>

## Rhestr Wirio a Datblygu

Defnyddiwch y tabl isod i sicrhau eich bod yn gwneud y mwyaf o'r holl sianeli marchnata a chyfathrebu sydd ar gael i chi yn effeithiol.

Cofiwch ddarllen a gwirio'r canllawiau cyn ticio'r blwch.

<b>Cyfrwng</b>	<b>Ddim yn ei ddefnyddio</b>	<b>Lle i wella</b>	<b>Defnyddio'n effeithiol</b>
Facebook			
Twitter			
Intsagram / Snapchat			
Datganiadau i'r wasg			
Papurau Bro			
Papur Saesneg ardal			
Poster a pamffledi			
Gwefan			
e-gylchlythyr			
Youtube			